

Rhif: WG27393



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

### Ymgynghoriad ar rifau adnabod daliadau a symudiadau da byw

Dyddiad cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2015  
Camau i'w cymryd: 19 Ionawr 2016

## Cynnwys

## Tudalen

Trosolwg a sut i ymateb

3

Diogelu Data

4

## Adran

1 Cyflwyniad

4

2 Cwmpas

4

3 Sefyllfa ar hyn o bryd

6

4 Rhesymau dros newid

7

5 Beth ydym ni'n ei gynnig?

9

6 Buddiannau

12

7 Costau

13

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

15

Atodiad 1

16

**Trosolwg** Mae Rhif y Sir Plwyf Daliad (CPH) yn sail i nifer o systemau rheolwr ei ddefnyddio i adnabod daliadau fferm. Ei brif ddiben yw nodi olrhain symudiadau'r da byw hynny, yn unol â'r Rheoliadau Ew gwartheg, defaid, geifr a moch.

Y CPH yw'r sail ar gyfer cofnodi symudiadau da byw gan ein galluogi i olrhain symudiadau da byw trwy bob cam o'r gadwyn gyflenwi.

Mae'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd wedi ymrwymo i wella'r system CPH yng Nghymru a'i gwneud yn fwy effeithlon.

Yn sgil y penderfyniad i resymoli'r system CPH, caiff Awdurdodau Meddiannaeth Unigol (SOAs) a'r drefn cysylltu daliadau o dan y System Olrhain Gwartheg (CTS) eu diddymu a chyflwynir rheol 10 milltir yn eu lle. Bydd hynny'n helpu ceidwaid da byw i wneud eu busnesau'n fwy effeithlon trwy roi cyfle iddynt reoli pob parcel tir o dan eu rheolaeth sydd 10 milltir neu lai o'r prif leoliad cynhyrchu.

**Sut i ymateb** **Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 19/01/2016.**

Anfonwch eich sylwadau a'ch ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir ar dudalen 13 at Lywodraeth Cymru gan ddefnyddio'r manylion cysylltu isod.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Ffoniwch neu e-bostiwch ni i ofyn am eich copi. Bydd angen tu phythefnos arnom i baratoi'ch copi a'i gael ichi.

**Manylion Cysylltu**

E-bost: [CPHconsultation@wales.gsi.gov.uk](mailto:CPHconsultation@wales.gsi.gov.uk)

Ffôn: 01267 245022

Cyfeiriad:

Tîm Polisi ar Adnabod Anifeiliaid

Llywodraeth Cymru

Adeiladau'r Llywodraeth

Teras Picton

Caerfyrddin

SA31 3BT

**Diogelu Data** Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.  
Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawr gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol.

Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.  
Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddiwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## 1.0 Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Ewropeaidd yn ei gwneud yn ofynnol i wledydd yr UE sicrhau bod ganddynt ddull effeithiol o adnabod darnau o dir amaethyddol, neu daliadau fel y'u gelwir, i ddangos ble mae da byw, ble maen nhw wedi bod ac i ble maen nhw'n mynd.

Dechreuwyd defnyddio rhifau CPH (Sir, Plwyf, Daliad) yn y 1950au fel dull rheoli sy'n sail ar gyfer y drefn tagio anifeiliaid fferm (gwartheg, moch, defaid a geifr). Mae'r CPH yn cael ei ddefnyddio hefyd yng Nghymru wrth hysbysu'r awdurdodau am symudiadau da byw gan ein galluogi i olrhain symudiadau da byw rhwng mannau gwahanol, hynny i ateb gofynion y Rheoliadau Ewropeaidd.

Mae'r trefniadau ar gyfer symud ac olrhain da byw wedi cymhlethu dros y blynyddoedd wrth iddyn nhw gael eu haddasu i fynd i'r afael â gwendidau yn y system olrhain a rheoli clefydau. Daeth y gwendidau hynny i'r amlwg yn sgil achosion o glefydau.

Roedd yr Adolygiad o'r Trefniadau Symud Da Byw a gynhaliwyd gan Bill Madders yn argymhell symleiddio'r trefniadau symud a gwella system rhifau'r CPH a ddefnyddir i adnabod ffermydd. Cloriannodd y risgiau, y manteision a'r beichiau sy'n gysylltiedig â'r mesurau rheoli a'u dylanwad ar ymddygiad ffermwyr ac ar lefel eu cydymffurfiaeth. Casgliad ei adroddiad oedd bod llawer o le i symleiddio'r drefn.

Roedd adolygiad Syr Ian Anderson o'r modd yr ymdriniwyd â chlwy'r traed a'r genau yn 2001 a 2007 yn dangos bod angen rhagor o waith ar gasglu data am dda byw. Un peth yn arbennig y tynnodd sylw ato oedd yr angen i wella'r system CPH er mwyn gwybod yn well a chliriach ble yn union y mae da byw ar unrhyw adeg.

## 2.0 Cwmpas

Ym mis Tachwedd 2013, penderfynodd y cyn Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd symleiddio'r system CPH. Byddai'r cynigion yn golygu cael gwared ar Awdurdodau Meddiannaeth Unigol (SOA) a'r cysylltiadau ar y System Olrhain Gwartheg (CTS) a chyflwyno rheol pellter. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn esbonio sut y mae Llywodraeth Cymru am roi'r newidiadau hyn ar waith ac yn gofyn ichi am eich barn am reol pellter newydd ar gyfer daliadau yng Nghymru.

Mae'r cynigion wedi'u cynllunio i roi system symlach a mwy effeithiol ac effeithlon i geidwaid da byw, y diwydiant amaeth a Llywodraeth Cymru. Bydd system o'r fath yn fwy abl i ddelio ag achosion o glefyd ac i wrthsefyll eu heffeithiau. Rydym wedi'u datblygu dros amser ar y cyd â rhanddeiliaid

mewnol ac allanol y diwydiant sy'n aelodau o'r Grŵp Cyngori ar Adnabod Da Byw (LIDAG).

Nid ydym am edrych ar y polisi ar wahardd symudiadau anifeiliaid<sup>1</sup> a bydd yn parhau i weithredu fel ag y mae nawr fel sail i'r drefn symud anifeiliaid. Bydd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar gynigion i gyflwyno unedau cwarantîn (rhag i waharddiad symud effeithio ar ddaliad cyfan) yn 2015 hefyd.

### **3.0 Sefyllfa ar hyn o bryd**

Mae pob daliad y cedwir anifeiliaid fferm arno wedi cael rhif adnabod CPH gan Lywodraeth Cymru. Pan fydd da byw'n cael eu symud rhwng daliadau, rhaid i geidwaid yr anifeiliaid hynny roi gwybod am y symudiad i'r gronfa ddata ganolog, gan ddefnyddio rhif adnabod y CPH i nodi man cychwyn y daith a phen y daith.

Mae'r rhifau CPH presennol yn cael eu neilltuo fel arfer ar sail strwythur y busnes. Mae daliadau defaid yn seiliedig ar reol 5 milltir a gyflwynwyd yn 2010 yn sgil Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodi, Adnabod a Symud) (Cymru) 2009 (SAGRIMO). Mae hynny'n golygu bod tir ar rent neu sy'n eiddo ichi ac sy'n cael ei ddefnyddio i gadw defaid neu eifr o fewn 5 milltir i'r prif ddaliad (fel hed y frân o ffin y prif ddaliad) ac nad yw'n cael ei ddefnyddio gadw geidwad anifeiliaid arall, yn gallu cael ei gofrestru fel un daliad (un rhif CPH). Ar hyn o bryd, nid oes rheol pellter ar gyfer daliadau sy'n cadw gwartheg.

Ar hyn o bryd, rhaid rhoi gwybod i'r CTS, sy'n cael ei redeg gan Wasanaeth Symudiadau Gwartheg Prydain (BCMS), am symudiadau gwartheg. Ar hyn o bryd, o ran symudiadau defaid a geifr, mae gofyn i ddaliad pen y daith roi'r manylion i'r awdurdod lleol (gan ddefnyddio ffurflen symudiadau AML1). Bydd manylion symudiadau defaid a geifr yn cael eu trosglwyddo'n syth i gronfa ddata electronig EIDCymru. Rhoddir gwybod am symudiadau moch i'r Swyddfa Weithredol Moch (BPEX), cronfa ddata electronig.

## **Consesiynau i'r System CPH yng Nghymru**

### **3.1 Awdurdod Meddiannaeth Unigol (SOA)**

Cafodd SOA's eu creu, yn sgil epidemig clwy'r traed a genau 2001, er mwyn i geidwaid allu lleihau effeithiau gwaharddiad symud ar eu busnesau.

- O fewn yr SOA, caniateir grwpiau o safleoedd o dan yr un rheolaeth i symud da byw heb waharddiad symud.
- Bydd gwaharddiad symud yn digwydd pan gaiff da byw eu symud i un o safleoedd yr SOA o safle y tu allan i'r SOA.
- Rhaid dal cadw at y rheolau cofnodi a hysbysu arferol hyd yn oed wrth symud da byw o fewn yr SOA.

---

<sup>1</sup> Gweler yr atodiad am restr termau

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn ei gwneud yn ofynnol cynnal Profion Cyn Symud ar symudiadau rhwng parseli tir o fewn SOA. Mae perchenogion tir sydd â SOA yn cael gofyn am Gytundeb Rheoli Cysylltiadau Tir Dros Dro (ILAM) (sy'n caniatáu symudiadau heb brofion rhwng parseli sydd o fewn 10 milltir i'r prif ddaliad)

Ni fydd SOAs newydd yn cael eu cymeradwyo o fis Tachwedd 2013 ymlaen ond mae'r rheini a gymeradwywyd rhwng 2001 a 2013 yn parhau'n ddilys.

### **3.2 Gwartheg**

Mae rhai ceidwaid sy'n symud eu gwartheg yn rheolaidd rhwng daliadau wedi cael 'cysylltu' y daliadau hyn ar y CTS. Mae hynny'n golygu nad oes yn rhaid rhoi gwybod i'r CTS am bob symudiad rhwng y daliadau cysylltiedig ond bod dal gofyn i geidwaid gofnodi'r symudiad ar gofrestr y fuches. Nid yw cysylltiadau CTS yn diddymu ymrwymiad cyfreithiol y ceidwad i gydymffurfio â'r rheolau symud a rheoli clefydau eraill fel y gwaharddiad symud a'r profion TB cyn symud.

### **3.3 Defaid a Geifr**

Mae Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodi, Adnabod a Symud) (Cymru) 2009 yn rhoi Rheoliad y Cyngor 21/2004 ar waith yng Nghymru. Mae'r Gorchymyn hwn yn cyflwyno polisi pellter '5 milltir' ar gyfer ffermwyr defaid a geifr. Fel y dywedir uchod, os oes parseli sy'n eiddo i'r ceidwad neu sy'n cael eu rhentu ganddo yn cael eu defnyddio i gadw defaid neu eifr a'u bod 5 milltir neu lai o'r prif ddaliad (fel yr hed y frân ac o ffin y prif ddaliad) ac nad oes ceidwad da byw arall yn eu defnyddio, gellir eu cofrestru fel un daliad (un rhif CPH). Nid oes angen cofnodi symudiadau rhwng y parseli hyn yng nghofnod y ddiadell ac nid oes angen anfon dogfen symud (ffurflen AML1) am y symudiad i'r gronfa ddata ganolog. Rhaid cofnodi pob symudiad arall a rhoi gwybod am bob un i'r gronfa ddata ganolog.

## **Rhesymau dros newid**

### **4.0 Rheoliad Ewropeaidd**

Mae gwendidau'r system CPH wedi dod yn fwyfwy amlwg dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r consesiynau a ddisgrifir uchod yn ei gwanau ymhellach.

Mae peidio â diwygio'r system yn golygu bod Llywodraeth Cymru'n agored i'w herlyn am dorri rheolau ac i gael ei chosbi o dan y rheolau Trawsgydymffurfio.

Dywed rheoliad (EC) 1760/2000 a Rheoliadau Adnabod Gwartheg (Cymru) 2007 er enghraifft bod yn rhaid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol bob tro y symudir gwartheg. Mae'r arfer gyfredol o 'gysylltu daliadau' yn gwanhau Deddfwriaeth yr UE gan nad oes rhanddirymiad ffurfiol wedi'i roi ar gyfer ei defnyddio. Mae 'cysylltu daliadau' wedi drysu'r gofyn o ran rhoi gwybod am symudiadau ac mae potensial iddo wanhau gallu Cymru i ddelio ag achos o glefyd.

Mae'r ffactorau hyn yn rhoi Cymru mewn sefyllfa anoddefadwy yn llygaid y Comisiwn Ewropeaidd.

#### **4.1 Cynllun Dileu TB Gwartheg Prydain**

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU gan restru nifer o ofynion y byddai'n rhaid eu bodloni er mwyn i'r Comisiwn allu parhau i roi ei gymeradwyaeth i'r Cynllun Dileu TB ac i'r DU allu parhau i gael arian o'r Gronfa Dileu Clefydau. Mae'r goblygiadau'n cynnwys 'cwblhau'r cynlluniau ar gyfer diddymu Awdurdodau Meddiannaeth Unigol' ac 'adolygiad trylwyr o'r trefniadau ar gyfer rhoi'r cysyniad o "ddaliad" ar waith yn y DU yn unol â deddfwriaeth yr Undeb'.

Roedd penderfyniad Gweinidogion Cymru i roi'r gorau i gyhoeddi SOAs newydd o fis Tachwedd 2013 yn rhannol fodloni'r Comisiwn Ewropeaidd ond mae dros 6,000 o SOAs yn parhau yng Nghymru ac yn parhau i weithredu o dan y drefn bresennol. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn awyddus i weld camau'n cael eu cymryd yn y maes hwn ac mae'n gofyn yn rheolaidd am fanylion y sefyllfa.

#### **4.2 Rheoli clefydau'n well**

Mae system y CPH yn adlewyrchu adeiladwaith a gweithgareddau diwydiant amaeth y 1950au, pan gafodd ei chreu. Mae busnesau fferm wedi cynyddu yn eu maint ac wedi ymddarnio'n barseli tir fwyfwy gwasgarog a phellach oddi wrth ei gilydd.

Mae ceidwaid wedi dweud yn glir bod hyn ynghyd â'r gofynion hysbysu symudiadau gwahanol ar gyfer rhywogaethau gwahanol a chymhlethdod pryd a sut i ddefnyddio rhai o'r consesiynau, fel cysylltu daliadau CTS a SOAs, i gyd yn anodd eu deall ac yn arwain at gamgymeriadau gonest.

Ers cyflwyno Cynllun y Taliad Sengl yn 2005, defnyddiwyd Cyfeirnod Cwsmer (CRN) i adnabod cwsmeriaid yn lle rhif adnabod lleoliad. O ganlyniad, nid yw pob CPH sy'n cael ei ddefnyddio gan y diwydiant wastad yn gyfoes nac yn ateb y diben. O ganlyniad uniongyrchol i hynny, gwanychir y sail ar gyfer cynnal trefn rheoli clefydau effeithiol.

#### **4.3 Fframwaith Strategol**

Bydd rheolau busnes gwell ar gyfer defnyddio CPH yn rhoi cyfle i ffermwyr a rheolwyr tir fod yn fwy effeithlon ac yn lleihau baich y prosesau gweinyddol, hynny yn unol â'r weledigaeth ar gyfer fframwaith strategol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru a lansiwyd yng Nghynhadledd Ffermio Cymru ar 4 Mehefin.



## Beth ydym ni'n ei gynnig?

### 5.1 Y pellter 10 milltir

Er mwyn medru rheoli clefydau gorau y gallwn, byddai'n well cydnabod daliad fel parcel ar wahân o dir, bod darnau ar wahân o'r daliad yn cael rhifau adnabod CPH gwahanol a bod mesurau bioddiogelwch yn cael eu cynnal rhwng daliadau. Mae trefn o'r fath yn wahanol iawn i'r drefn bresennol a byddai'n rhoi baich anymarferol ar y diwydiant ffermio. Rhaid felly wrth gyfaddawd sy'n caniatáu i fusnesau fferm barhau i ffynnu ond gan sicrhau lefel ddigonol ond priodol o reolaeth pe ceid achos o glefyd.

**Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig gwahaniaethu tir/adeiladau (ar gyfer pob rhywogaeth) hyd at a chan gynnwys y radiws o 10 milltir, fel hed y frân, o'r prif leoliad cynhyrchu (PPL)<sup>2</sup>.**

Mae'r pellter o 10 milltir wedi'i ddatblygu ar y cyd â chynghorwyr milfeddygol o Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol a rhanddeiliaid allanol LIDAG i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen i ffermwyr allu bwrw ymlaen â'u busnes a'r angen am fesurau rheoli effeithiol. Cynigir mesur y pellter o 10 milltir o ffin allan y PPL yn hytrach nag o ganol y CPH.

### 5.2 Uno CPH

**Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig rhoi cyfle i geidwaid sydd ar hyn o bryd yn cadw dau CPH parhaol o fewn 10 milltir i uno daliadau.**

Caiff parseli tir o fewn y 10 milltir fod yn rhan o'r un CPH cyn belled â'u bod o dan reolaeth yr un bobl ac nad yw'r da byw yn gallu cymysgu'n rhydd â da byw daliadau eraill. Gallai daliadau CPH gael eu huno o dan amrywiaeth o amgylchiadau, y brif sbardun i hynny fyddai cyflwyno rheol 10 milltir ar gyfer ceidwaid defaid a diddymu SOAs a rhai cysylltiadau o dan y CTS. Ni fyddai gorfodaeth i greu un CPH ar gyfer pob darn o dir o fewn 10 milltir.

Caiff pob parcel tir sydd o dan feddiant parhaol (h.y. dros 364 o ddiwrnodau) (gan gynnwys adeiladau) ac sydd o dan reolaeth yr un bobl ac o fewn 10 milltir i'r prif ddaliad eu cynnwys yn yr un rhif CPH *fel arfer*. Mae hynny'n golygu:

- Os caiff parseli o fewn 10 milltir i'r prif ddaliad eu huno, byddem yn eu hystyried fel un daliad ac un rhif adnabod CPH fydd ganddynt.
- Ni fyddai angen rhoi gwybod i gronfa ddata ganolog na chofnodi ar gofrestr y fferm unrhyw symudiadau da byw o fewn y daliad.

---

<sup>2</sup> Gweler atodiad 1 am restr termau

- Ni fyddai angen cynnal prawf TB cyn symud ar wartheg sy'n cael eu symud o fewn y daliad. Os caiff da byw eu symud o ddaliad arall i unrhyw ran o'r daliad, byddai gwaharddiad symud ar y daliad cyfan.

### 5.3 Cysylltu Tir

**Pan gymerir tir tymor byr/dros dro (e.e. tac haf neu aeaf) sydd 10 milltir neu lai o ddaliad y ceidwad, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai fod yn bosib i'r ceidwad gysylltu'r parseli tir hyn â'i CPH parhaol, cyn belled â bod y ceidwad yn bodloni amodau penodol<sup>3</sup>.**

Gallai'r cysylltiadau tir hyn bara hyd at 364 o ddiwrnodau a dod i ben ar ddiwedd y cyfnod hwn (neu wrth i'r denantiaeth ddod i ben, pa un bynnag fydd gynharaf). Ar ôl hynny, byddai'n rhaid eu hadnewyddu. Mae hyn yn golygu:

- Ni fyddai angen rhoi gwybod i gronfa ddata ganolog na chofnodi ar gofrestr y fferm unrhyw symudiadau da byw o fewn y daliad (gan gynnwys i ac o dir sydd wedi'i gysylltu â'r prif ddaliad)
- Ni fyddai angen cynnal prawf TB cyn symud ar wartheg sy'n cael eu symud o fewn y daliad.
- Os caiff da byw eu symud o ddaliad arall i unrhyw ran o'r daliad, byddai gwaharddiad symud ar y daliad cyfan.

### 5.4 Rhannu CPH

**Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y gallai CPH gael ei rannu os gwelir nad yw'r lleoliadau gwasgarog yn cydymffurfio â'r rheol 10 milltir.**

Mewn achosion o'r fath, byddai angen rhif CPH ychwanegol ar y darnau tir sydd y tu allan i'r ffin 10 milltir. Mae hyn yn golygu:

- Byddai'n rhaid cofnodi yng nghofrestr y fferm bob symudiad i ddaliadau sydd â rhif CPH gwahanol, gan gynnwys rhai â rhifau CPH dros dro, a rhaid rhoi gwybod i'r gronfa ddata ganolog am y symudiad. Byddai hyn yn cynnwys:
- cynnal gwaharddiad symud,
- cynnal profion TB cyn symud ar wartheg

---

<sup>3</sup> Gweler atodiad 5 am restr termau

- cofnodi rhifau tagiau clust llawn yr anifeiliaid sy'n cael eu symud a rhoi gwybod i'r awdurdod amdanynt.

## 5.5 Rhifau CPH dros dro


**Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig bod ceidwaid sydd wedi dewis peidio â chysylltu tir ar rent tymor byr â'u CPH parhaol, neu sydd ddim yn cael gwneud hynny (oherwydd pellter), yn cael gofyn am CPH dros dro.**

Deuai rhifau CPH dros dro i ben ar ôl 364 o ddiwrnodau (neu erbyn y dyddiad rhentu olaf, pa un bynnag sydd gynharaf) a byddai'n rhaid i'r ceidwad eu hadnewyddu.

- Byddai'n rhaid cofnodi yng nghofrestr y fferm bob symudiad rhwng daliadau sydd â rhif CPH gwahanol, gan gynnwys rhai â rhifau CPH dros dro, a rhaid rhoi gwybod am y symud i'r gronfa ddata ganolog. Byddai hyn yn cynnwys:
  - cynnal gwaharddiad symud,
  - cynnal profion TB cyn symud ar wartheg
  - Cofnodi rhifau tagiau clust llawn yr anifeiliaid sy'n cael eu symud a rhoi gwybod i'r awdurdod amdanynt.

### Diagram 1.0

Mae'r diagram isod (ddim yn ôl graddfa) yn dangos Prif Leoliad Cynhyrchu a'r rheolau neilltuo CPH ar gyfer daliadau wasgaredig.



|      |                         |   |
|------|-------------------------|---|
| i)   | <b>Bloc/Parseli A-D</b> | yn gymwys ar gyfer eu 'huno' neu eu 'cysylltu'.<br>Gweler para 5.2/5.3.   |
| ii)  | <b>Bloc/Parsel E</b>    | mwy na 10 milltir o'r prif ddaliad, felly bydd angen rhif CPH arall ar gyfer y tir hwn. Gweler para 5.4   |
| iii) | <b>Bloc B</b>           | Mae bloc B wedi'i rannu gan y radiws 10 milltir ond mae tir yn ffinio <sup>4</sup> â'r tir o fewn y radiws. Mae'n cael ei ystyried yn un bloc ac mae'n gymwys ar gyfer ei uno (os yw'n eiddo i'r ceidwad neu ar rent tymor hir) neu ei gysylltu â'r prif ddaliad (os yw ar rent tymor byr). |

## 5.6 Tir Comin

### **Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig bod ceidwaid yn cael uno'r tir comin fel rhan o'r daliad os ydy'r prif ddaliad yn ffinio â'r tir comin.**

Rhaid cofnodi pob symudiad rhwng tir comin a phrif ddaliadau nad ydyn nhw'n ffinio â'r tir comin a rhoi gwybod i gronfa ddada ganolog. Mae hynny'n cynnwys y gwaharddiad symud, y profion cyn symud ar wartheg a chofnodi defaid magu sy'n cael eu symud rhwng tir sydd â'r un perchennog.

## 5.7 Trefniadau Dros Dro

### **Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig bod cysylltiadau CTS a SOAs yn cael eu diddymu fesul "achos cyfan".**

Cynigir yr opsiwn hwn gan y byddai'n rhoi'r profiad gorau i gwsmeriaid. Rhagwelir y cymerith tua dwy flynedd i wneud hyn yng Nghymru. Mae'n golygu ffordd broactif o weithio ac yn golygu gweithio gyda phob cwsmer sydd â chyswllt CTS a/neu SOA, gan newid ei rif CPH yn ôl y rheol pellter newydd a rhoi opsiynau i'r cwsmer ar gyfer rhesymoli'i CPH yn unol â'r rheolau busnes newydd.

## 6. Buddiannau

Byddai'r newidiadau hyn i'r system neilltuo rhifau CPH yn esgor ar newidiadau mawr i'r systemau hysbysu symudiadau. Byddai'r cynigion:

- Yn safoni'r ffordd y mae ffermydd yn cael eu cofrestru a thrwy hynny, gallwn symleiddio rheolau'r drefn hysbysu am symudiadau a'r eithriadau cymhleth iddi a lleihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr. Bydd ceidwaid yn cael symud da byw rhwng parseli tir sy'n eiddo iddynt neu'n cael eu rhentu ganddynt o fewn radiws o 10 milltir o'u prif safle heb orfod cofnodi hynny ar gofrestr y fferm na rhoi gwybod am y symudiad i'r gronfa

<sup>4</sup> Gweler atodiad 1 am restr termau

genedlaethol na chadw at waharddiad symud. Ni fydd angen cytundebau ILAM felly ar gyfer symud gwartheg;

- Yn golygu cofnodi'r holl barseli tir sy'n ffurfio daliad. Trwy newid y rheol pellter, byddwn yn gwybod yn well pa barseli tir sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu da byw ac yn gallu ymateb yn gynt ac yn well i achos o glefyd;
- Yn symleiddio'r trefniadau hysbysu a gwahardd symud ar gyfer gwartheg, moch, defaid a geifr er mwyn i geidwaid allu deall ac ateb y gofynion yn rhwydd a chyson, yn enwedig y ffermwyr sy'n cadw defaid a gwartheg;
- Yn golygu y byddwn yn gallu targedu archwiliadau a phennu ffiniau parthau rheoli clefydau'n well. Bydd hynny'n help i leihau'r effaith ar ffermwyr pan geir clefyd;

## 7. Costau

- Yn sgil dadansoddi data am gymorthdaliadau 10 sir yng Nghymru a Lloegr, gwelwyd bod 93% o ffermydd<sup>5</sup> o fewn y terfyn pellter o 10 milltir sy'n golygu na fyddai'r newidiadau yn effeithio ar y rhan fwyaf o ffermwyr.
- Byddai cynyddu'r terfyn presennol o 5 milltir ar gyfer defaid i derfyn o 10 milltir ar gyfer pob rhywogaeth yn lleihau baich rheoliadau llawer o ffermwyr. Bydd hynny'n lleihau'r anawsterau fydd yn wynebu ffermwyr sy'n colli eu SOAs a'u cysylltiadau CTS.
- Ar gyfer y daliadau gwartheg sydd wedi'u cysylltu o dan y CTS ac sydd fwy na 10 milltir o'r prif ddaliad<sup>6</sup>, byddai'r gofynion hysbysu symudiadau yn cynyddu pan ddiddymir y cysylltiadau ac efallai y bydd rhai busnesau'n wynebu mwy o gostau wrth orfod cynnal profion TB gwartheg. Nid yw'r cynigion hyn yn delio'n benodol â TB gwartheg. Byddwn yn delio ar wahân ag unrhyw newidiadau y gwelir bod eu hangen i'r trefniadau hynny yn sgil y newidiadau yn y ddogfen hon wrth i Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol barhau i adolygu'r trefniadau profion cyn symud.
- Ar gyfer y rheini sydd â daliadau cysylltiedig lai na 10 milltir o'r PPL, bydd rhai costau o ran amser i 'gysylltu' tir dros dro â'r PPL ond bydd arbedion amser yn pen draw gan y bydd llai o symudiadau'n gorfod cael eu cofnodi yng nghofrestr y daliad.
- Ar gyfer y ceidwaid gwartheg, defaid a moch sydd â SOAs fwy na 10 milltir o'r prif ddaliad, byddai costau'n gysylltiedig â chynnal gwaharddiadau symud ar ôl diddymu'r SOAs.

---

<sup>5</sup> Ffynhonnell – Animal Health - Livestock Partnership Livestock Movement Units Project - Field Study Final Report

<sup>6</sup> Gweler atodiad 1 am restr termau

- Nid yw'r terfyn 10 milltir yn gyson â radiws 3km y parthau gwarchod nag â radiws 10km y parthau gwylidwriaeth a gynhelir pan geir achos o glefyd. Fodd bynnag, trwy roi'r daliad cyfan o dan gyfyngiadau, cwmpesir y parth gwarchod a'r parth gwylidwriaeth. O ehangu cwmpas daliad, byddai hynny'n debygol o gynyddu maint parthau rheoli clefydau gan adlewyrchu maint y risg. Felly os ceir achos o glefyd, bydd y diwydiant ffermio'n gweld yr effaith ar ei weithgareddau yn cynyddu.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

### Eich manylion

|   |     |
|---|-----|
| Eich enw:   |     |
| Eich sefydliad (os yw'n berthnasol):  |     |
| Eich cyfeiriad:   |     |
| Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. A fyddai'n well gennych ein bod yn cadw'ch ymateb yn ddienw?   | Y/N |
| Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau? <ul style="list-style-type: none"><li>• Ffermwr</li><li>• Cynrychiolydd neu sefydliad yn y diwydiant ffermio</li><li>• Aelod o'r cyhoedd</li><li>• Arall</li></ul> |     |

### Beth ydych chi'n feddwl?

Byddem yn falch o gael clywed eich sylwadau ar y cynigion yn y ddogfen hon – defnyddiwch rifau'r paragraffau yn y ddogfen, i ddangos pa gynigion rydych yn rhoi sylwadau arnynt.

Fe fyddem yn arbennig o falch clywed eich atebion i'r cwestiynau canlynol:

#### 1. Ydych chi'n cytuno â'r cynigion yn y ddogfen hon neu â rhai ohonynt?

Nodwch ba gynigion rydych chi'n cytuno â nhw (gan nodi rhif y paragraff) a pham eich bod yn cytuno â nhw.

#### 2. Ydych chi'n anghytuno â'r cynigion yn y ddogfen hon neu ag unrhyw rai ohonynt?

Nodwch ba gynigion rydych chi'n anghytuno â nhw (gan nodi rhif y paragraff) a pham eich bod yn anghytuno â nhw.

#### 3. A oes gennych syniadau ynghylch sut i wella'r cynigion yn y ddogfen hon neu ag unrhyw rai ohonynt neu sut orau i'w rhoi ar waith yn ymarferol?

#### 4. A oes gennych sylwadau y carech eu gwneud?

## Atodiad 1

### Rhestr termau a diffiniadau

|  |   |
|--|---|
| <b>1. Prif leoliad cynhyrchu (PPL)</b> | <p>Y Prif Leoliad Cynhyrchu yw prif leoliad y cyfeirnod CPH. Ffin allanol y PPL yw'r man lle caiff pob daliad a/neu barsel gwasgaredig yn y grŵp ei fesur ohono.</p> <p>Amodau (yn nhrefn blaenoriaeth):</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Y PPL yw lleoliad adeiladau'r da byw / y parlwr godro / y prif gyfleusterau ar gyfer trin anifeiliaid at ddibenion gofalu/iechyd a diogelwch. Fel arfer, hwn fydd y cyfeiriad gohebu hefyd.</li><li>• Os nad oes adeiladau/tai (h.y. yn achos daliad nad yw'n fferm ddwys), y PPL yw man crynhoi'r anifeiliaid.</li><li>• Ambell waith, os nad oes unrhyw dir caeedig, dim ond tir comin, y PPL yw'r cyfeiriad gohebu.</li><li>• Lleoliad cyfran fwyaf y tir sy'n eiddo/o dan rent tymor hir.</li><li>• Ni chaiff tir comin fod yn rhan o'r PPL.</li></ul> <p>Dyma'r rheol ar gyfer penderfynu a oes modd uno neu gysylltu tir â'r rhif CPH.</p> |
| <b>Tir sy'n ffinio</b>                 | <p>Penderfynir a yw tir yn ffinio trwy asesu parseli ar system adnabod Parseli Tir (LPIS) Llywodraeth Cymru, sy'n ymgorffori nodweddion parhaol fel cyrsiau dŵr.</p> <p>Lle bo'r daliad(au)/tir gwasgaredig eraill yn cynnwys parseli sydd y tu allan i'r terfyn 10 milltir ond bod y pellter lleiaf rhwng y tir hwn a'r prif ddaliad yn llai na'r pellter penodedig, cewch uno'r holl barseli sy'n ffinio â'r tir hwn â'r CPH sy'n ffurfio'r grŵp daliadau. Dangosir hyn yn Niagram 1.0: mae bloc B yn rhychwantu'r terfyn 10 milltir o'r PPL ond ystyrir bod y bloc sy'n ffinio yn rhan o'r rhif CPH.</p>   |
| <b>Meddiannaeth unigol</b>             | <p>Cyn belled ag y gall y ceidwad ddangos fod ganddo unig feddiannaeth, mae rheolau newydd y CPH yn caniatáu i geidwaid uno a/neu gysylltu parseli gwasgaredig neu grwpiau o barseli sy'n ffinio â'i gilydd sydd 10 milltir neu lai o'r PPL yn eu CPH. Dyma'r amodau ar gyfer dangos unig feddiannaeth:</p> <p><b>Amodau</b></p>  |



|                          |  |
|--------------------------|--|
|                          | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Tir sy'n eiddo neu ar rent i unigolyn, partneriaeth neu gwmni a bod yr holl dda byw arno o dan reolaeth lwyr yr unigolyn/partneriaeth/cwmni.</li> <li>• Rhaid i'r caeau neu adeiladau unigol sy'n eiddo i'r unigolyn/partneriaeth/cwmni fod o dan reolaeth lwyr yr unigolyn/partneriaeth/cwmni.</li> <li>• Rhaid i'r caeau neu adeiladau unigol sy'n cael eu rhentu fod o dan reolaeth lwyr yr unigolyn/partneriaeth/cwmni am oes y denantiaeth.</li> <li>• Ystyrir bod caeau neu adeiladau (yn eiddo neu ar rent) sy'n cael eu defnyddio gan unigolion, partneriaid neu gwmnïau ar wahân o dan feddiannaeth unigol wahanol hyd yn oed os oedd y caeau ac ati yn rhan o'r un rhif CPH.</li> <li>• Lle bo gan unigolyn arall yr hawl i fynd trwy dir sy'n eiddo neu ar rent i unigolyn/partneriaeth/cwmni, ni chaiff fod o dan feddiannaeth unigol oni bai bod yr unigolyn arall yn rhoi'r gorau i'w hawl i symud anifeiliaid ar droed.</li> <li>• Rhaid bod gan gaeau neu adeiladau unigol (yn eiddo neu ar rent):</li> <li>• Fannau cysylltu ar wahân â chaeau neu adeiladau nad ydynt yn yr un feddiannaeth unigol.</li> <li>• Ffin cadw stoc e.e. ffens/perth/wal, sy'n briodol i'r anifeiliaid ar y tir, i gadw anifeiliaid sy'n defnyddio meddiannaeth unigol wahanol ar wahân.</li> <li>• Ni chaiff da byw gymysgu'n rhyd â da byw o ddaliadau eraill.</li> </ul> |
| <b>Gwaharddiad symud</b> | <p>Y gofyn i wahardd symudiad da byw am 6 niwrnod (defaid, geifr a gwartheg) neu 20 niwrnod (moch). Mae'r gwaharddiad yn effeithio ar y daliad cyfan y symudwyd yr anifeiliaid iddo ac ni chaiff anifeiliaid eraill adael y daliad nes y bodlonir y gwaharddiad symud. Diben y gwaharddiad yw caniatáu i glefyd cyflym ddatgelu ei symptomau cyn i dda byw heintiedig cael eu rhyddhau i boblogaeth newydd o anifeiliaid.</p>  |